Adroddiad ar

Gylch Meithrin Abercynon

Y Gorlan
Parkview
Abercynon
CF35 4TP

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Abercynon

| | |
|---|---|
| Enw’r lleoliad | Cylch Meithrin Abercynon |
| Categori’r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw’n berthnasol) | Claire Jones |
| Person â gofal | Dominie Prosser |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 10 |
| Nifer y plant sy’n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 7 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 09.00 – 16.00 dydd Llun – dydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw’r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae’r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy’n defnyddio’r gwasanaeth, neu a all ei defnyddio |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma’r arolygiad cyntaf ers ailgofrestru |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Dyma’r arolygiad cyntaf |
| Dyddiadau’r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 25/03/2025 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1. Sicrhau cyfleoedd cyson i blant ddatblygu eu medrau yn adeiladol dros amser, yn enwedig eu medrau rhifedd a digidol

A2. Mireinio a chryfhau'r prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae'r rhan fwyaf o blant yn hapus, ac yn mwynhau cwmni eu ffrindiau a'r ymarferwyr wrth gymdeithasu gyda'i gilydd. Maent yn gwneud dewisiadau'n hyderus ac yn mwynhau'r rhyddid i symud o amgylch yr ardaloedd dysgu. Er enghraifft, maent yn gwneud dewisiadau rhydd os ydynt am chwarae dan do neu yn yr ardal allanol. Mae bron bob plentyn yn ymuno â grwpiau o ffrindiau yn ôl eu dewis ac yn helpu eu hunain i adnoddau yn fedrus. Er enghraifft, maent yn mwynhau arbrofi gyda thoes, adeiladu trac trenau, neu reidio beiciau a cheir. Maent yn gyfforddus i ofyn am gymorth wrth wisgo ffedog peintio, neu symud cynwysyddion i ddyfrio planhigion.

Mae bron bob plentyn yn setlo'n gyflym, ac wrth gyrraedd yn mynd ati i roi eu cotiau a'u bagiau ar eu bachau cyn ymuno â sesiwn cofrestru a chanu. Maent yn ymdopi'n dda ac yn teimlo'n ddiogel a chartrefol. Er enghraifft, maent yn mwynhau agosrwydd ymarferwyr a ffrindiau wrth edrych ar lyfr trychfilod yn yr awyr agored. Maent yn hyderus i alw enwau'r ymarferwyr, fel bo'r angen, ac yn dangos bod ganddynt ymdeimlad o berthyn. Mae llawer o blant yn gyfarwydd ag arferion y dydd ac yn gwybod beth sy'n digwydd nesaf. Er enghraifft, maent yn ymwybodol o drefniadau brwsio dannedd ac amser byrbryd. Maent yn cael boddhad wrth ddatblygu eu dealltwriaeth o'u hunaniaeth. Er enghraifft, wrth chwarae rôl, maent yn trafod eu teuluoedd ac yn sgwrsio'n hapus.

Mae llawer o blant yn rhyngweithio'n dda ac yn datblygu medrau cymdeithasol cadarn gan fwynhau cwmni ffrindiau a dysgu cymryd tro. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd, mae plant wrth eu bodd yn cael bwyta gyda'u ffrindiau o amgylch y bwrdd. Maent yn arsylwi ar ei gilydd wrth ddysgu defnyddio cyllell i roi menyn ar dost ac arllwys llaeth i'w cwpanau. Maent yn gwenu a chwerthin wrth iddynt gwblhau'r tasgau ac yn ymfalchïo yn llwyddiant eu ffrindiau. Mae llawer o blant yn cefnogi ei gilydd yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r plant hynaf yn dangos i blant ieuengaf sut i lenwi mowldiau i greu siapiau yn y tywod. Mae bron bob un plentyn yn datblygu perthnasoedd cynnes â'r ymarferwyr ac yn rhyngweithio'n dda ag ymwelwyr, er enghraifft wrth ddangos eu gwaith arlunio lliwgar.

Mae llawer o blant yn frwdfrydig ac yn dyfalbarhau'n fwriadus wrth ddysgu. Er enghraifft, maent yn diddori wrth arbrofi gyda reis lliwgar ac yn canolbwyntio am gyfnodau i lenwi cynwysyddion gydag adnoddau megis llwyau, creigiau a thwndisau bach. Mae llawer o blant yn hyderus i arbrofi yn eu hamgylchedd ac yn mwynhau meistroli cyfarpar fel y cwrs rhwystrau, ac wrth lwyddo, yn awyddus i geisio eto. Maent yn mwynhau cyfleoedd i arbrofi wrth greu ardal ar gyfer bwystfilod bach gan sgwrsio'n gyffrous wrth ddewis rhisgl, cerrig a phren.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol da, er enghraifft wrth fynd i'r tŷ bach, golchi a sychu eu dwylo heb gymorth, brwsio dannedd a hunangofrestru. Maent yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau megis defnyddio'r ffynnon ddŵr yn annibynnol a defnyddio platiau go iawn yn ystod byrbryd.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae llawer o blant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn ac yn datblygu ystod o fedrau yn effeithiol wrth chwarae a dysgu. Mae'r plant yn hapus wrth ymgartrefu yn y lleoliad ac yn datblygu eu medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol yn dda. Trwy gynhaliaeth werthfawr ymarferwyr, mae bron bob plentyn yn dangos diddordeb yn eu dysgu wrth ryngweithio'n naturiol tu fewn a thu allan. Mae plant yn ymgolli'n llwyr yn yr amgylchedd ysgogol. Maent yn mwynhau dysgu trwy brofiadau buddiol, er enghraifft wrth rannu a chymryd tro wrth greu toes gyda chymorth ymarferydd.

Mae llawer o blant yn gwrando ar gyfarwyddiadau'n astud ac, o ganlyniad, yn dod i adnabod trefniadau'r lleoliad yn gyflym. Mae'r rhan fwyaf yn deall cyfarwyddiadau syml gan ymarferwyr ac yn ymateb yn gynyddol hyderus, naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu drwy ystumiau a gweithredoedd. Yn ddi-os, mae plant yn mwynhau ymuno â sesiynau canu, ac yn defnyddio symudiadau perthnasol i gyd-fynd â'r geiriau. Maent hefyd yn canu yn ystod sesiynau chwarae rhydd; er enghraifft wrth glywed sŵn trên yn y pellter, maent yn awyddus i ddangos symudiadau addas wrth ganu *'Mae Tomos y trên yn mynd i lawr y trac'.*

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau Cymraeg yn llwyddiannus yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Er enghraifft, wrth drafod opsiynau ar gyfer brecwast yn yr ardal chwarae rôl, maent yn rhoi eu barn ar fanteision bwyta llysiau. Mae hyn yn cyfrannu'n fwriadus at gynnydd y plant yn eu medrau cyfathrebu Cymraeg.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau darllen yn briodol ac yn dangos diddordeb mewn llyfrau a'u trin â pharch. Maent yn dewis llyfrau'n annibynnol ac yn rhannu straeon gydag oedolion a chyfoedion. Mae mwyafrif y plant yn mwynhau creu marciau ac maent yn datblygu eu gallu i ddefnyddio offer ysgrifennu addas i greu ystyr. Er enghraifft, wrth chwarae yn yr ardal allanol, maent yn defnyddio sialc i ddarlunio symbolau ar y llawr i gynrychioli llythrennau a siâp calon, ac wedyn yn sgwrsio ag ymarferwr am eu hystyr.

Mae mwyafrif y plant yn datblygu medrau rhifedd priodol ac yn defnyddio iaith fathemategol yn unol â'u cam datblygu yn gywir. Er enghraifft, maent yn cyfri faint o ffrwythau y maent wedi'u dewis a'u gosod ar y llwy yn ofalus yn ystod amser byrbryd. Maent yn defnyddio eu medrau rhifedd yn fuddiol wrth greu patrymau gydag adnoddau crefft a siswrn igam ogam yn yr ardal greadigol. Mae llawer o blant yn cydweithio â'i gilydd mewn gweithgareddau rhifedd yn addas ac yn dangos dyfalbarhad wrth ddatrys problemau. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y plant yn datblygu eu medrau rhifedd mewn ystod gyfoethog o brofiadau dysgu yn ddigon cyson.

Mae mwyafrif y plant yn dangos diddordeb mewn adnoddau digidol, er enghraifft wrth wasgu botymau siarad yn yr ardaloedd dysgu i glywed caneuon amrywiol. Er hyn, nid yw'r ddarpariaeth yn cefnogi'r plant i ddefnyddio amrywiaeth addas o declynnau digidol fel rhan naturiol o'u dysgu. Yn gyffredinol, nid yw medrau digidol lleiafrif y plant yn datblygu'n ddigon cadarn.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau corfforol yn naturiol o fewn yr ardal awyr agored, maent yn defnyddio adnoddau corfforol megis tair olwyn yn hyderus ac mae ychydig yn eu rheoli'n annibynnol. Mae ychydig o blant yn herio eu hunain trwy ddefnyddio'r offer dringo mewn ffyrdd dyfeisgar. Maent yn helpu ei gilydd i gydbwyso a symud ar hyd cwrs rhwystrau wedi'i wneud o flociau pren mawr yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos dawn greadigol naturiol. Er enghraifft, maent yn creu strwythurau sy'n cynrychioli adeiladau nodedig yn yr ardal chwarae blociau gyda chymorth ffotograffau. Maent yn arbrofi ac ymchwilio'n effeithiol i liwiau paent gwahanol a chreu darluniau dychmygus gan ddefnyddio amrywiaeth o offer crefft.

### Gofal a datblygiad: Da

Mae ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn blaenoriaethu eu hiechyd a'u diogelwch yn llwyddiannus. Maent yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau cadarn yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant ac wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant priodol, yn ogystal â dilyn polisi a gweithdrefnau clir. Maent wedi mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf priodol ac yn cadw cofnodion cywir ar gyfer damweiniau a digwyddiadau. Maent yn sicrhau bod gweithdrefnau cadarn yn cael eu dilyn yn ystod cyfnodau byrbryd ac yn annog y plant i olchi eu dwylo'n rheolaidd. Mae ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant ag alergeddau ac mae ganddynt weithdrefnau clir i weinyddu meddyginiaeth. Maent yn sicrhau urddas a phreifatrwydd llwyr wrth ddilyn polisi newid cewynnau ac yn cofnodi'r arferion hyn yn ddyddiol. Maent yn deall eu cyfrifoldebau i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ac mae ganddynt rwydweithiau effeithiol a gweithdrefnau pwrpasol er mwyn eu cefnogi. Mae gan ymarferwyr system gofrestru drwyadl a threfnus ac mae ganddynt gofnodion caniatâd yn

eu lle. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn eu trin â gofal a pharch. Mae ganddynt berthynas garedig a chynnes â'r plant ac yn modelu rhyngweithiadau naturiol a gofalgar yn gyson. Maent yn angerddol am eu gwaith ac yn cydweithio'n llwyddiannus i atgyfnerthu gwerthoedd caredig. Er enghraifft, maent yn annog y plant i rannu a chymryd tro drwy hyrwyddo chwarae mewn grwpiau bach, sy'n cynnig amser addas ar gyfer pob plentyn. Mae ymarferwyr yn arsylwi, aros a gwrando mewn modd meddylgar gan greu ymdeimlad o berthyn. Maent wrth law i gynnig cefnogaeth, pan fo angen, fel cymorth wrth wisgo ffedog, neu ddefnyddio siswrn. Maent yn canmol y plant ac yn eu hannog i geisio rhoi cynnig ar weithgareddau fel creu toes neu ddringo. Maent yn hybu'r iaith Gymraeg yn barhaus drwy sgwrsio, canu'n gyson a chyflwyno patrymau iaith yn hynod effeithiol.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth glir o anghenion a dymuniadau unigol y plant. Maent yn barod iawn i'w cefnogi, ac yn darparu gweithgareddau a phrofiadau chwarae i'w hannog i ddatrys problemau eu hunain. Er enghraifft, maent yn atgoffa'r plant am yr adnoddau sydd ganddynt o amgylch y lleoliad a'u cymell i arbrofi, er enghraifft wrth ddefnyddio brigau yn y toes i greu patrwm. Mae ymarferwyr yn gweithio'n barhaus i ddatblygu profiadau amrywiol er mwyn cymell y plant i ddysgu trwy wneud. Er enghraifft, maent yn addysgu'r plant i ddeall eu teimladau eu hunain wrth hunangofrestru. Mae ymarferwyr yn gweithredu fel gweithwyr allweddol ar gyfer grŵp o blant. Maent yn nodi arsylwadau o'u cynnydd a'u llwyddiannau yn y llyfrau 'Taith Dysgu' er mwyn cynllunio ar gyfer y camau nesaf.

### Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae ymarferwyr yn cydweithio'n fwriadus i gynllunio profiadau dysgu diddorol a chreadigol sy'n ennyn a chynnal diddordebau plant yn effeithiol. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o Gwricwlwm i Gymru sy'n cyfrannu'n briodol at eu dealltwriaeth o'r modd mae plentyn yn gwneud cynnydd yn eu medrau mewn gweithgareddau chwarae a thasgau. Mae ymarferwyr yn casglu gwybodaeth werthfawr am y plant, er enghraifft am eu cymhelliant dysgu a'u diddordebau, sy'n rhoi trosolwg defnyddiol o bob plentyn. Mae hyn yn eu cefnogi i feithrin lles plant a darparu gweithgareddau sy'n bodloni eu hanghenion dysgu yn llwyddiannus.

Un o rinweddau nodedig yr addysgu yw'r modd mae ymarferwyr yn rhyngweithio'n gyson â'r plant ac yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn llwyddiannus. Trwy ddulliau trochi medrus ymarferwyr, er enghraifft modelu'r iaith a chanu caneuon yn barhaus, mae plant yn clywed geirfa a phatrymau brawddeg yn gyson. Mae hyn yn ei dro yn rhoi hyder i blant sgwrsio a datblygu eu medrau cyfathrebu yn gynyddol hyderus. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i blant fwynhau amrywiaeth o lyfrau, er enghraifft wrth ddarllen yn y wigwam yn yr ardal allanol. Mae ymarferwyr yn cefnogi plant i ddatblygu eu medrau ysgrifennu yn briodol, er enghraifft wrth ddefnyddio sialc i ffurfio llythrennau ar yr iard.

Mae gan ymarferwyr berthynas waith gadarn â'r plant ac maent yn manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo eu chwilfrydedd a'u dychymyg yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn datblygu medrau rhifedd y plant yn addas, er enghraifft wrth gyfatebu rhif beiciau â'r gorsafoedd parcio perthnasol. Mae plant yn datblygu eu medrau digidol yn briodol mewn gweithgareddau perthnasol, er enghraifft wrth ddefnyddio teclynnau i gefnogi eu dysgu. At ei gilydd, nid yw ymarferwyr yn darparu digon o gyfleoedd bwriadus a chyson i blant ddatblygu eu medrau rhifedd a digidol yn adeiladol dros amser. Mae hyn yn arafu cynnydd y plant wrth iddynt ddefnyddio a chymhwyso eu medrau mewn ystod o brofiadau dysgu.

Mae ymarferwyr yn darparu amgylchedd dysgu  ysgogol sy'n hybu plant i chwarae a dysgu dan arweiniad oedolyn ac yn gynyddol annibynnol. Maent yn cynnal arsylwadau buddiol o'r plant ac yn oedi'n fwriadus cyn ymyrryd er mwyn eu cefnogi i symud y dysgu yn ei flaen. Mae ymarferwyr yn holi'r plant yn effeithiol gan drafod eu hymatebion yn fedrus. Mae hyn yn ymestyn gwybodaeth y plant ac yn dwysáu eu dealltwriaeth o wahanol brofiadau dysgu, er enghraifft wrth drafod bod llaeth, caws ac iogwrt yn gynnyrch a ddaw o laeth y fuwch. Mae'r wybodaeth sy'n deillio o'r arsylwadau a'r trafodaethau hyn yn cael ei gosod ar y murlun 'Camau Nesaf' fel cyfrwng i ymarferwyr gefnogi'r plant i wneud cynnydd parhaus. Mae 'Taith Dysgu' y plant yn gofnod unigol gwerthfawr o'u cyflawniadau a'u datblygiad yn y medrau o'u mannau cychwyn.

Trwy gynllunio effeithiol, mae ymarferwyr yn datblygu medrau diwylliannol plant yn llwyddiannus, er enghraifft wrth flasu gwahanol fwydydd o Gymru a thu hwnt. Gwnânt ddefnydd gwerthfawr o'r ardal leol, fel ymweld â'r parc lleol er mwyn datblygu gwerthfawrogiad y plant o'u cymuned. Mae ymarferwyr yn cyflwyno gweithgareddau sy'n datblygu medrau ysbrydol plant yn effeithiol ac yn trafod agweddau fel hapusrwydd a charedigrwydd fel rhan naturiol o'u gwaith.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd diogel a glân ac mae ganddynt fesurau cadarn i sicrhau bod mynediad i'r safle ysgol trwy brosesau cadarn y lleoliad. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y brif gât allanol dan glo ac yn cael ei rheoli'n ofalus. Mae ganddynt weithdrefnau clir sy'n sicrhau bod ymwelwyr yn mewngofnodi'n brydlon ac mae arweinwyr yn cadw'r holl gofnodion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth yn ddiogel. Mae cofnodion cynnal a chadw'r lleoliad yn gyfredol ac mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferion tân yn digwydd yn rheolaidd. Maent yn sicrhau bod offer diogelu'r amgylchedd yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd. Maent yn cynnal asesiadau risg effeithiol a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae arweinwyr yn cadw cofrestr o blant ac ymarferwyr yn ofalus, ac yn sicrhau bod cymarebau ymarferwyr i blant yn briodol. Maent yn cynnig ardal benodol sy'n arddangos gwybodaeth am ymarferwyr, polisïau a gweithdrefnau diogelu.

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd o ansawdd da sy'n groesawgar a chynnes. Maent yn sicrhau bod toiledau addas a chyfleusterau newid cewynnau preifat a phwrpasol. Gwnânt ddefnydd effeithiol o'r lleoliad a chyfleusterau'r safle ac yn caniatáu i'r plant fedru chwarae'n ddiogel yn holl ardaloedd y ddarpariaeth, yn ôl eu dymuniad. Yn y brif ystafell, mae arweinwyr yn cynnig amgylchedd agored lle mae celfi bach ac unedau o adnoddau yn hybu annibyniaeth y plant yn llwyddiannus. Maent hefyd yn sicrhau amgylchedd caeedig a diogel tu allan, sy'n cynnig profiadau cyffrous ar gyfer y plant. Er enghraifft, mae ardaloedd cysgodol, arwynebau caled a glaswellt ffug sy'n cynnig heriau a chyfleoedd buddiol i blant gymryd risg a meithrin medrau corfforol fel dringo a chydbwyso. Mae ymarferwyr yn sicrhau cydbwysedd da rhwng hyrwyddo diogelwch y plant a'u cefnogi i fentro.

Mae arweinwyr yn cynnig adnoddau amrywiol o safon uchel i blant sy'n addas ar gyfer eu cam datblygiad. Maent yn gosod adnoddau'n hygyrch er mwyn i blant ddewis a dilyn eu diddordebau. Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan blant gyfleoedd parhaus i brofi adnoddau rhydd ac offer go iawn. Yn yr ardal chwarae rôl, mae adnoddau fel llestri go iawn a llysiau i'r plant chwarae â nhw. Yn yr ardal allanol, maent yn cynnig heriau corfforol fel cwrs rhwystrau, ac offer er mwyn i blant arbrofi gyda dŵr. Mae ymarferwyr yn annog datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn effeithiol trwy gynnig profiadau iddynt ddysgu am eu cymuned, am amrywiaeth ac am y byd amlddiwylliannol. Er enghraifft, mae ganddynt amrywiaeth o adnoddau pwrpasol fel doliau, llyfrau, lluniau teuluol a safleoedd adnabyddus cyfagos er mwyn datblygu ymwybyddiaeth y plant o'u cymuned leol. Mae ymweliadau â mannau fel y ganolfan gymunedol leol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o'u cymuned yn llwyddiannus.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan arweinwyr weledigaeth gadarn ar gyfer darparu addysg a gofal i blant trwy gyfrwng y Gymraeg. Maent yn mynnu'r gorau ar gyfer y plant wrth gyflwyno profiadau dysgu buddiol ar eu cyfer. Mae arweinwyr yn cydweithio'n effeithiol â'r ymarferwyr ymroddgar, ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel a threfniadaeth gadarn wrth gynllunio'r ddarpariaeth gynhwysol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y datganiad o ddiben yn amlinellu'r gweithdrefnau cyfredol yn effeithiol. Maent yn rheoli cyllid yn ofalus a chaiff y gwariant ei flaenoriaethu'n synhwyrol ar gyfer rhoi darpariaeth les a dysgu o safon dda i'r plant. Defnyddir grantiau a chyfraniadau cyllidol eraill yn ddarbodus, er enghraifft wrth barhau i fuddsoddi yn yr amgylchedd dysgu.

Mae arweinwyr wedi llunio polisïau a gweithdrefnau gwerthfawr sy'n cael eu gweithredu'n effeithiol. Maent yn dilyn polisïau recriwtio diogel ac mae gan ymarferwyr gymwysterau priodol a phrofiad gwerthfawr wrth feithrin lles a chefnogi dysgu'r plant. Mae'r tîm gweithgar a brwdfrydig o ymarferwyr yn falch o fod yn aelodau gwerthfawr o'r gweithlu ac yn angerddol wrth ddarparu amgylchedd cartrefol i'r plant. Mae'r arlwy dysgu proffesiynol yn eang ac mae ymarferwyr yn cael cyfleodd cyson i fynychu amrywiaeth o hyfforddiant buddiol, sy'n canolbwyntio ar agweddau fel ADY ac addysgeg caffael iaith plant. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar wybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr wrth wella'r ddarpariaeth a bodloni anghenion dysgu'r plant. Trwy gydweithio cyson ag ymarferwyr, rhieni ac ymddiriedolwyr, mae systemau'n cael eu gweithredu'n effeithiol wrth baratoi'r plant ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais buddiol ar sicrhau bod y ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd o ansawdd uchel i blant trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r arweinwyr yn defnyddio ystod berthnasol o weithgareddau wrth werthuso'r ddarpariaeth, sy'n cynnwys trafodaethau ag ymarferwyr ac awgrymiadau gan rieni. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn adnabod beth maent yn ei wneud yn dda a'r hyn sydd angen ei wella. Maent yn manteisio'n fuddiol ar gefnogaeth swyddogion yr awdurdod lleol er mwyn datblygu'r ddarpariaeth ymhellach. Caiff y gwerthusiadau eu trafod gan yr ymarferwyr a'u cofnodi'n addas mewn cynllun gwella perthnasol. Mae hyn yn ganllaw cyson iddynt weithredu ar y blaenoriaethau, er enghraifft wrth geisio datblygu ymwybyddiaeth y plant o amrywiaeth mewn cymdeithas. At ei gilydd, mae'r broses monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn addas ac mae'r wybodaeth yn cael dylanwad priodol ar y ddarpariaeth. Er hyn, nid yw'r prosesau hunanwerthuso yn canolbwyntio'n ddigon llwyddiannus ar effaith y gweithredu ar ddysgu'r plant, yn enwedig y cynnydd maent yn ei gyflawni yn eu medrau.

Mae ymarferwyr yn cydweithio'n dda â phartneriaethau, er enghraifft wrth i'r plant fynychu digwyddiadau pwysig yn yr ysgol gynradd sydd wedi'i lleoli ar yr un safle. Mae hyn yn hwyluso'r broses drosglwyddo ynghyd â meithrin lles a dysgu'r plant yn fuddiol. Trefna'r ymarferwyr i'r plant fynd ar deithiau o amgylch yr ardal leol er mwyn ehangu eu profiadau dysgu yn ehangach, fel wrth ymweld â'r ardd gymunedol. Mae ymarferwyr yn cydweithio mewn partneriaeth glòs â rheini ac yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol â nhw trwy gyfrwng cylchlythyr defnyddiol ac ap digidol. Mae ymarferwyr yn cynnal sesiynau gwerthfawr gyda rhieni i rannu gwybodaeth am brofiadau, lles a chynnydd yn nysgu'r plant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/06/2025